

# Y MAES FFRWYDRON MWYNOL

➤ Macrofwynau a Microfwynau, y cyfeirir atynt yn aml fel prif elfennau ac elfennau hybrin, sydd ill dau yn gydrannau deietegol hanfodol ar gyfer iechyd, twf, a pherfformiad atgenhedlu gorau posibl mewn biff a defaid.

➤ Ffactorau a all effeithio ar argaeledd mwynau:

• MATH O BRIDD • MATH AC ANSAWDD PORTHIAN  
• RHEOLAETH • CLEFYDAU

➤ Os byddwch yn sylwi ar unrhyw un o'r arwyddion diffyg, trafodwch gynnal profion gwaed a/neu ddadansoddiad o'r afu/iau i wneud diagnosis a datblygu cynllun ategu wedi'i deilwra.

## Prif Fwynau = Macrofwynau - angen symiau cymharol fawr ohonynt

Mwyn	Swyddogaeth	Arwyddion Diffyg (Gwartheg)	Arwyddion Diffyg (Defaid)	Dull Ategu
<b>Calsiwm (Ca)</b>	Datblygiad a chynnal a chadw ysgerbydol, swyddogaeth y cyhyrau, trosglwyddiad trwy'r nerfau	Y llechau (lloi), Osteomalacia (llawndwf), Twf gwael, Gwendid, Dera'r borfa	Cyfradd twf is, y llechau (ŵyn), Anystwythder, Gwendid, Tocsaemia Beichiogrwydd	Calsiwm carbonad, deucalsiwm ffosffad, blociau llyfu
<b>Ffosfforws (P)</b>	Datblygiad a chynnal a chadw ysgerbydol, metaboledd egni, swyddogaeth gellog	Y llechau (lloi), Osteomalacia (llawndwf), Anystwythder, Gwendid, Llai o awch bwyd	Cyfradd twf is, y llechau (ŵyn), Gwendid, Anystwythder, tocsaemia beichiogrwydd	Deucalsiwm Ffosffad, monosodiwm ffosffad, blociau llyfu
<b>Magnesiwm (Mg)</b>	Swyddogaeth y cyhyrau, actifadu ensymau, datblygiad esgyrn	Dera'r borfa, Nerfusrwydd, Cryndodau, Llai o awch bwyd	Dera'r borfa, Nerfusrwydd, Trawiadau, Marwolaeth sydyn	Magnesiwm ocsid, magnesiwm sylffad, blociau llyfu
<b>Sodiwm (Na)</b>	Cydbwysedd hylifau ac electrolytau, Trosglwyddiad trwy'r nerfau, swyddogaeth y cyhyrau	Gwendid, syrthni, llai o awch bwyd, Pica (bwyta gwrthrychau annormal)	Gwendid, syrthni, Colli gwlan, cyfradd twf is	Halen (sodiwm clorid)
<b>Potasiwm (K)</b>	Cydbwysedd hylifau ac electrolytau, Swyddogaeth y cyhyrau, Trosglwyddiad trwy'r nerfau	Gwendid cyhyrol, Blinder, Llai o awch bwyd, Clwy'r boten	Gwendid yn y cyhyrau, syrthni, dolur rhydd, cyfradd twf is	Potasiwm clorid, blociau llyfu
<b>Sylffwr (S)</b>	Asidau Amino, Synthesis Protein, Cynhyrchiant Gwlan ac Iechyd y traed.	Llai o awch bwyd, Colli pwysau, Syrthni, Glafoerio Gormodol	Llai o awch bwyd, Colli pwysau, Glafoerio helaeth, llygaid niwlog	Dimethyl sylffocsid (DMSO), methylsulfonylmethane (MSM)



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

EIN FFERMYDD  
OUR FARMS

## Mwynau Elfennau Hybrin = Microfwynau - angen symiau cymharol fach ohonynt

Microfwyn	Swyddogaeth	Arwyddion Diffyg (Bïff)	Arwyddion Diffyg (Defaid)	Dulliau Ategu (Bïff a Defaid)
<b>Copr (Cu)</b>	System imiwneidd, celloedd gwaed coch, ffrwythlondeb, twf, lliw côt	Twf gwael, dolur rhydd, côt gwallt garw	Cefn gwan, twf diffygiol, anffrwythlondeb	Torthau mwynau, bolysau, drenshis, dwysfwydydd
<b>Seleniwm (Se)</b>	Swyddogaeth y cyhyrau, swyddogaeth imiwneidd, ffrwythlondeb, gwrthocsidydd	Afiechyd cyhyrau gwyn, ôl-frych, llai o ffrwythlondeb	Afiechyd cyhyrau gwyn, llai o ffrwythlondeb, cyflwr gwael	Porthiant wedi'i gyfoethogi â seleniwm, torthau mwynau, bolysau, pigiadau, drenshis
<b>Cobalt (Co)</b>	Cynhyrchiant fitamin B12, swyddogaeth y rwmn, cynhyrchiant celloedd gwaed coch a thwf	Llai o awch bwyd, colli pwysau, diffyg twf, anffrwythlondeb	Llai o awch bwyd, pica, diffyg twf	Pelenni cobalt, torthau mwynau, dwysfwydydd, bolysau, drenshis
<b>Ïodin (I)</b>	Swyddogaeth, twf a datblygiad y thyroid	-	Goitr, twf gwael, wŷn gwan, problemau atgenhedlu	Torthau halen ag iodid (defaid yn unig)
<b>Sinc (Zn)</b>	System imiwneidd, iechyd traed, twf gwllân	Parakeratosis, niwmonia	Parakeratosis, iechyd traed gwael, cloffni	Torthau mwynau, dwysfwydydd
<b>Manganîs (Mn)</b>	Datblygiad esgyrn a dannedd, swyddogaeth ensymau, atgenhedlu	Annormaleddau ysgerbydol	Annormaleddau ysgerbydol, ffrwythlondeb gwael	Ddim yn ofynnol fel arfer
<b>Haearn</b>	Elfen graidd haemoglobin	Colli awch bwyd, cyfradd twf gwael, syrthni	Cyfraddau twf llai, mwy o risg o glefydau heintus	Nid oes ei angen gan fod glaswellt yn ffynhonnell wych o haearn.
<b>Molybdenwm</b>	Metaboledd purin	Dechrau ysgothi, datblygu cotiau llym, llai o ffrwythlondeb, poen yn y cymalau - cloffni	Oedi mewn ffrwythlondeb, cyfraddau beichiogi gwael, llai o gynhyrchiant laeth, colli pwysau	Drenshis, fodd bynnag, nid oes eu hangen fel arfer.

### Cyfeiriadau:

Hybu Cig Cymru: Atchwanegion Elfennau Hybrin i Wartheg Cig Eidion a Defaid

Bïff ac Wŷn AHDB: Trace Elements in Beef and Sheep Production

Agrimin: Trace Elements, Minerals and Vitamins

Iechyd Anifeiliaid Provita: Trace Elements for Cattle & Sheep at Pasture

Nutrition for Sheep 6: Minerals & Vitamins

Vitamins & Minerals for Beef and Sheep Farmers - AHDB